caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales




# Mynd i'r Afael â Sbwriel yn Ymwneud â Chyffuriau

## Crynodeb

Cadwch Gymru'n Daclus, Ebrill 2023

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Crynodeb

Mae sbwriel yn ymwneud â chyffuriau yn gymhleth o ran natur ac mae'n wahanol i ymddygiad arall yn ymwneud â sbwriel oherwydd natur ac ymddygiad y defnyddiwr. Mae llawer o'r dulliau traddodiadol o fynd i'r afael â thaflu sbwriel yn aneffeithiol ond mae mwy fyth o angen am ddata gwell a phartneriaethau mwy integredig i fynd i'r afael â strategaethau taflu sbwriel, iechyd y cyhoedd, a chamddefnyddiol sylweddau.

I awdurdodau lleol, mae sawl argymhelliad ar gyfer ymdrin â'r mater hwn tra'n cydnabod bod rhai o'r ysgogwyr polisi fydd yn effeithio ar newid gwirioneddol gyda Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r astudiaethau achos yn yr atodiadau yn dangos y gall partneriaeth a chasglu data effeithiol gael effaith.

Mae un o argymhellion allweddol y papur hwn yn ymwneud â phartneriaethau a chasglu data mwy effeithiol. Er mwyn asesu graddfa a lleoliad achosion o sbwriel cyffuriau, dylid casglu gwybodaeth fwy cywir. Yn y pen draw os na allwch ei fesur, ni allwch ei reoli. Mae angen i ni ddeall yn well a monitro graddfa a lleoliad achosion gyda chronfa ddata sbwriel gyffredinol.



Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn argymell y dylai pob corff â chyfrifoldeb glanhau, neu unrhyw un sy'n debygol o ddod i gysylltiad â nodwyddau sydd wedi cael eu gadael, gael system adrodd effeithiol ar gyfer yr holl nodwyddau sy'n cael eu canfod. Mae hyn yn cynorthwyo cyflogwyr i atal risg o nodwyddau wedi eu gadael a gall helpu awdurdodau ar lefel ehangach i nodi anghenion am gyfleusterau cyfnewid nodwyddau neu finiau sefydlog. Bydd cael trefniadau data gydag asiantaethau eraill yn hwyluso'r broses hon a gall helpu'r heddlu i ganolbwyntio eu hymdrechion heb achosi sbwriel yn ymwneud â chyffuriau i gael ei wasgaru'n anfwriadol, a all gynyddu'r risgiau a gwneud y broblem yn fwy anodd ei chynnal a'i rheoli.

Pwynt allweddol arall wrth fynd i'r afael â sbwriel yn ymwneud â chyffuriau yw bod angen i awdurdodau lleol ddeall natur y defnyddiwr a thargedu ymyriadau yn unol â hynny. Nodi, er enghraifft y gallai llawer o chwistrellau sydd wedi eu gadael fod wedi cael eu cuddio'n fwriadol i'r defnyddiwr eu codi yn nes ymlaen yn hytrach nag wedi eu gadael yn fwriadol, neu efallai nad yw pob chwistrell yn rhai defnyddwyr cyffuriau Dosbarth A ond mewn ardaloedd lle gallai cyffuriau sy'n gwella perfformiad fod yn gyffredin. Trwy ddeall sut a ble mae cyffuriau'n cael eu defnyddio, gellir targedu cyfleusterau gwaredu mwy diogel a negeseuon priodol mewn ffordd gynnil, i leihau risg, hybu ymddygiad mwy diogel, a lleihau ofn neu bryder y cyhoedd.

Mae'r papur hwn yn nodi dull a argymhellir gan awdurdodau lleol ond mae hefyd yn tynnu sylw at rai o'r ysgogwyr sydd ar gael i Lywodraeth Cymru sydd yn cynrychioli esblygiad angenrheidiol polisïau camddefnyddio sylweddau yn y dyfodol. Mae prif rwystr gweithredu rhai o'r polisïau effeithiol sydd eu hangen i atal sbwriel yn ymwneud â chyffuriau a niwed cysylltiedig yn deillio o amgyffrediad y cyhoedd a diffyg dealltwriaeth.

- Er nad yw'n eang, mae sbwriel yn ymwneud â chyffurfiau wedi cael ei ganfod mewn parciau, canolfannau trefol, a mannau gwyrdd yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru.
- Mae sbwriel yn ymwneud â chyffuriau yn esblygu gyda thueddiadau diweddar yn gweld 'cistiau nox' yn cael eu taflu'n gynyddol.
- Ceir amrywiadau ar hyn o bryd rhwng awdurdodau o ran y ffordd y gall y cyhoedd adrodd am sbwriel yn ymwneud â chyffuriau yng Nghymru.
- Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn annog casglu data'n barhaus, a strategaethau adrodd i gael eu cytuno gyda grwpiau cymunedol a gweithredwyr cymunedol er mwyn gweithio gydag asiantaethau camddefnyddio sylweddau i wella dealltwriaeth am y mater.
- Ceir enghreifftiau o gyfleusterau cyfnewid nodwyddau llwyddiannus yng Nghymru, a chyfleusterau chwistrellu diogel a chwistrellau smart a ddefnyddir yn fyd-eang y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

caru
cymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales